
Rhwydweithio Uwch (CCNP Enterprise) T829

Patrwm cyflwyno

Un cyflwyniad K y flwyddyn

Disgrifiad o'r modiwl

Yn dilyn T829, sef y ddarpariaeth Cisco NetAcad – modiwl gwerth 60 credyd yw'r modiwl Rhwydweithio Uwch (CCNP-Enterprise), sy'n dilyn cwricwla CCNP/CCIE ENCOR a CCNP ENARSI Cisco. Prif ffocws y modiwl hwn yw ehangu gallu academaidd a phroffesiynol y myfyrwyr ym maes disgyblaethau rhwydweithio menter a seilwaith. Bydd myfyrwyr yn defnyddio e-lyfrau gwybodaeth ardystio Cisco Press, amgylchedd Cisco NetAcad, Packet Tracer ar gyfer rhai gweithgareddau a seilwaith NetlabVE Y Brifysgol Agored ar gyfer y rhan fwyaf o'u gwaith ymarferol o bell.

Bydd y modiwl hwn yn para blwyddyn (12 mis) ac yn dechrau ym mis Tachwedd 2021, a gymeradwywyd am bum mlynedd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Profiad o addysgu mewn amgylchedd addysg uwch neu faes masnachol cyfatebol.
- Achrediad fel Hyfforddwr NetAcad Cisco ac yn gallu addysgu'r canlynol:

Naill ai CCNP-Route, CCNP- Switch, CCNP-Tshoot (y tri ohonynt, dim eithriadau ar gael) neu

CCNP-ENCOR, CCNP-ENARSI (y ddau, dim eithriadau ar gael)

Gall Tîm y Modiwl gadarnhau'r cymwysterau hyn pan fydd yr ymgeisydd yn darparu cyfeiriad e-bost NetAcad gweithredol a pherthnasol.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- Cymhwyster ôl-raddedig mewn maes pwnc cysylltiedig.
- Gallu amlwg i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau meddwl yn feirniadol ac ymchwilio mewn perthynas â phynciau'r modiwl ac mewn cyd-destun academaidd ehangach.
- Profiad o weithio gyda myfyrwyr mewn cyd-destun ymarferol o bell yn y ddisgyblaeth rhwydweithio menter.

Gwybodaeth hanfodol ychwanegol

RHAID i bob ymgeisydd fod yn hyfforddwr Cisco NetAcad gyda phrofiad a chymwysterau priodol cyn gwneud cais. Ni ddarperir unrhyw hyfforddiant gan Ganolfan Hyfforddiant Hyfforddwyr Cisco gysylltiedig Y Brifysgol Agored.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	Pedwar, ac asesiad diwedd modiwl
Dull cyflwyno aseiniadau:	Electronig yn unig
Lefel y gofynion TGCh:	Gwe-ddwys
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	0